## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

### Pwyntiau Gweithredu

| Sesiwn Gwrandawiad 2 – Darpariaeth Tai | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S2/PG1 | Ffigwr gofyniad tai | Paratoi papur esboniadol yn ymdrin â'r dewis o'r cyfraddau gwacter a ddefnyddiwyd i ddatblygu opsiynau gofyniad tai. | Erbyn 30/9 |
| S2/PG2 | Ffigwr gofyniad tai - Gwynedd | Gan gofio Llythyr y Gweinidog (Ebrill 2014), paratoi papur sydd yn egluro/cyfiawnhau ffigwr gofyniad tai Gwynedd o ystyried ei fod yn is na phrif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sail-2011. Cynnwys cyfeiriad at raddfa ffurfio aelwydydd, e.e. aelwydydd gydag oedolion ifanc. | Erbyn 7/10 |
| S2/PG3 | Papur 20A 'Taflwybr Tai – Adendwm a Diweddariad': | Paratoi Papur Testun diwygiedig h.y. Papur Testun 20B sy'n trafod y materion canlynol:<br><br>• pam fod lefel twf Ynys Môn a Gwynedd yn cynyddu ar yr un raddfa ('step change') er y gwahaniaeth yn y strategaeth cyflenwad tai.<br>• tabl dosraniad gofodol tebyg i'r un a nodir gan Lywodraeth Cymru yn ei ddatganiad (mewn perthynas â Chwestiwn 4a). Paratoi tabl ar y cyd ar gyfer holl ardal y Cynllun yn ogystal â thablau i Wynedd ac Ynys Môn ar wahân.<br>• cynnwys graffiau i ddarlunio gwybodaeth.<br>• diwygio tabl 1 o ran pryd y dechreuir y datblygiadau ar y | Erbyn 14/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 2 – Darpariaeth Tai | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | dynodiadau tai i adlewyrchu cyd-destun ymarferol.<br>• Atodiad II – ystyried os mai angen dangos y cyflenwad tir gwirioneddol neu ddangosol ar gyfer y cyfnod sydd wedi mynd heibio sydd angen ei wneud neu ei adael yn wag?<br>• Atodiad II – cofnodi sut mae'r safleoedd yn cyfarch y gofyniad tai yn hytrach na dangos sut mae'r Cynllun yn cyfarch y lwfans llithriad 10% hefyd, h.y. ymateb i'r gwir ffigwr gofyniad tai a'i nodir.<br>• Os yw'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn dod i ffigwr sydd ychydig yn llai na 5 mlynedd ar gyfer y blynyddoedd cynnar wedi mabwysiadu'r cynllun yna byddai'n rhaid darparu cyfiawnhad dros hyn.<br>• Esbonio'r canran o'r cyfleoedd yn y Capasiti Trefol gafodd ei ddefnyddio o fewn gwahanol aneddleoedd. | |
| S2/PG4 | Adroddiad JHLAS | Angen cynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru o ran darparu un adroddiad JHLAS ar gyfer ardal y Cynllun, yn hytrach nag un adroddiad i Wynedd ac adroddiad arall i Ynys Môn. | Erbyn 14/10 |
| S2/PG5 | Astudiaeth Capasiti Trefol | Gwirio sail y ffigyrau tai gwag a nodir yn yr Astudiaeth - a ydyw'n cynnwys elfen o ail gartrefi ai pheidio? | Erbyn 16/9 |
| S2/PG6 | Polisi TAI X | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi er mwyn dileu Polisi TAI X | Erbyn 23/9 |

| Sesiwn Gwrandawiad 2 – Darpariaeth Tai | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S2/PG7 | Polisi TAI 17 | Ail-ystyried geiriad y Polisi gan roi ystyriaeth i'r canlynol:<br><br>• Cymal 2 – sicrhau bod y cymal yn fwy eglur / cyfreithlon?<br>• Cymal 3 – Ail-edrych ar y cymal oherwydd problemau ymarferol a all godi. | Erbyn 30/9 |
| S2/PG8 | Polisi TAI 5 | Paratoi papur esboniadol i ddarparu gwybodaeth bellach er mwyn cyfiawnhau'r polisi hwn a sicrhau bod geiriad y Polisi yn glir ac y gellir ei weithredu yn effeithiol. | Erbyn 30/9 |
| S2/PG9 | Polisi TAI 2 | Ail-edrych ar eiriad y polisi hwn o ran maen prawf 1 o safbwynt y cyfeiriad at dai teras dau lawr a sicrhau bod unrhyw elfen ofodol yn cael ei gynnwys yn y Polisi nid yn yr eglurhad. | Erbyn 23/9 |
| S2/PG10 | Polisi TAI 7 | Ail-edrych ar faen prawf 5 a'r eglurhad i'r Polisi o ran cyfeiriad at adeiladau gydag oes fer. | Erbyn 23/9 |